

RHEOLAU Gwirion

Torri'r Rheolau er Gofal Gwell

Adroddiad Cenedlaethol
Crynodeb Gweithredol

Chwefror 2026

Crynodeb Gweithredol

Mae gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru yn wynebu heriau sy'n ddwfn eu gwreiddiau ac yn gymhleth. Mae'r pwysau ar gleifion, gofalwyr, staff a chynhyrchwyr system yn dod yn fwyfwy amlwg bob dydd, yn aml wedi'u cyfuno â biwrocratiaeth ddiangen a rheolau, mythau neu arferion hen ffasiwn nad ydynt bellach yn cyd-fynd â'r anghenion na realiti gofal.

Er eu bod wedi'u cynllunio'n wreiddiol gyda bwriadau da, gall y rhain bellach wastraffu adnoddau, lleihau capasiti ac effeithio'n negyddol ar les cleifion a gweithwyr proffesiynol. Wrth i bwysau'r system barhau i gynyddu, mae pob rhwystr i ofal o ansawdd uchel, effeithlon a chynhyrchiol yn bwysig gan eu bod yn dylanwadu ar berfformiad, ymddiriedaeth a chynaliadwyedd ar draws y system gyfan.

Mae'r fenter '**Rheolau Gwirion**' wedi'i hysbrydoli gan ymgyrch wreiddiol **Institute for Healthcare Improvement (IHI)**, *Breaking the Rules for Better Care*, a archwiliodd y rhwystrau a brofwyd gan bobl sy'n gweithio ac yn defnyddio gwasanaethau iechyd. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, gofynnodd Comisiwn Bevan a Llais, mewn partneriaeth â'r Institute for Healthcare Improvement (IHI), un cwestiwn syml, agored i'r cyhoedd, cleifion, gofalwyr a'r gweithlu ar draws Cymru:



"Pe gallech dorri neu newid unrhyw reol(au) i ddarparu profiad gofal gwell i gleifion, teuluoedd neu staff yng Nghymru, beth fyddai hynny?"

Roedd yr ymateb yn drawiadol. **Gwnaeth dros 780 o bobl** o bob cwr o Gymru roi eu barn, gan arwain at dros **800 o enghreifftiau** o'r hyn a ystyrir yn 'Rheolau Gwirion', arferion a threfnau sy'n rhwystro rhoi neu dderbyn gofal da. Daeth y mwyafrif o'r ymatebion gan y gweithlu, gyda thua chwarter gan y cyhoedd, gan adlewyrchu safbwyntiau'r rhai sy'n byw ac yn gweithio yn y system bob dydd.

Roedd rhai cyflwyniadau'n tynnu sylw at annifyrrwch bach neu arferion hir-sefydlog (nid o reidrwydd rheolau) nad ydynt erioed wedi'u cwestiynu. Datgelodd eraill aneffeithlonrwydd systemig dyfnach gyda goblygiadau mawr ar sut mae gwasanaethau'n cael eu trefnu a'u profi. Gyda'i gilydd, maent yn dangos awydd cyffredin am newid: i symleiddio, ffrydio a chryfhau'r system fel bod amser ac egni'n canolbwyntio ar ofal effeithiol ac effeithlon, nid cydymffurfiaeth yn unig.



“Dywedwyd wrthyf fod angen i mi ffonio i drefnu apwyntiad er fy mod yn sefyll o flaen y derbynnydd.”



“Mae gennym ffurflenni atgyfeirio penodol sy’n hawdd iawn eu defnyddio ar gyfrifiadur, ond mae pobl yn eu hargraffu... eu llenwi â llaw, eu sganio... ac yn eu hanfon trwy e-bost.”



“Casglu hanes meddygol llawn y claf bob tro. Ar gyfer llawer o ymyriadau, mae cwestiwn cyflym yn ddigonol.”



“Mae’r ymgynghorydd yn anfon presgripsiwn newydd/ailadrodd ataf fel claf, i mi fynd â hwn i’r meddyg teulu er mwyn iddo allu rhoi presgripsiynau ailadrodd i mi.”



“Mae cael gweithwyr cymdeithasol i ailadrodd asesiadau capasiti pan fo un eisoes wedi’i wneud gan ymgynghorydd geriatrig yn hurt... ac yn achosi oedi enfawr wrth ryddhau.”

Yr hyn a ddarganfuwyd

Wrth ddadansoddi’r cyflwyniadau, cafwyd deg thema fawr, gan ddangos sut mae aneffeithlonrwydd a chymhlethdod yn ymddangos ar draws rhannau gwahanol o’r system yn ddiangen. Y themâu mwyaf cyffredin oedd:

- Gweithrediadau a Darparu
- Gwasanaethau (48%)
- Ansawdd a Diogelwch Cleifion (22%)
- Gwasanaethau Clinigol (21%)
- Digidol a Gwybodaeth (20%)
- Gweithlu ac AD (19%)

Clwstwr llai ond arwyddocaol:

- Cynllunio Strategol a Thrawsnewid
- Cyllid a Chaffael
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Iechyd Cyhoeddus
- Ymchwil ac Arloesi

Tra bod tua hanner yr holl faterion yn ymddangos yn bethau lleol, mae eraill yn deillio o bolisiau neu fframweithiau cenedlaethol sydd wedi cyflwyno anhyblygrwydd, dyblygu ac oedi diangen. Enghreifftiau: hyfforddiant gorfodol Cymru gyfan wedi'i ailadrodd, systemau TG cenedlaethol nad ydynt yn rhyngweithredol, a rheolau caffael sy'n cyfyngu ar arloesedd lleol.

Prif fewnwelediadau

- **Rhwyrstr diwylliannol yn ogystal â gweithdrefnol** – Nid oedd llawer o'r rheolau yn bolisiau ffurfiol o gwbl, dim ond yn arferion neu'n chwedlau anysgrifenedig sydd wedi ennill grym dros amser.
- **Patrymau ar draws y system** – Yr un rhwystredigaethau mewn ysbytai, gwasanaethau cymunedol, gofal sylfaenol a gofal cymdeithasol.
- **Cydraddoldeb a chynhwysiant** – Mae prosesau rhy anhyblyg yn effeithio fwyaf ar grwpiau sydd eisoes yn wynebu anfantais.
- **Ymgysylltiad adeiladol** – Roedd ymatebion yn gadarnhaol ac yn canolbwyntio ar atebion, nid cwynion.
- **Cyfleoedd lluosog** – Gallai mynd i'r afael â dim ond ychydig o aneffeithlonrwydd ailadroddus ryddhau miliynau o bunnoedd a miloedd o oriau staff bob blwyddyn.
- **Cysoni cenedlaethol-leol** – Bydd cynnydd gwirioneddol yn gofyn am rymuso lleol a hyblygrwydd cenedlaethol.

Beth mae hyn yn ei olygu i Gymru

Mae'r gwaith hwn yn dangos nad yw biwrocratiaeth ddiangen yn anghyfleustra bach ond yn her ar draws y system sy'n gwastraffu amser, yn rhwygo gofal ac yn tanseilio morâl staff. Mae mynd i'r afael â hyn yn angenrheidiol yn foesol ac yn ddoeth.

Drwy symleiddio prosesau a dileu tasgau gwerth isel, gall Cymru ryddhau capasiti ar gyfer gofal, ailadeiladu ymddiriedaeth a gwella profiadau i staff a dinasyddion.

- **I lunwyr polisïau:** dylai hyn olygu llunio fframweithiau cenedlaethol sy'n galluogi hyblygrwydd, nid anhyblygrwydd.
- **I arweinwyr:** adolygu rheolau, polisïau a haenau cymeradwyo i greu'r amodau gorau ar gyfer gofal diogel, effeithlon a chydymdeimladol.
- **I'r gweithlu:** teimlo'n rymus i herio ac i wella arferion hen ffasiwn.
- **I gleifion a'r cyhoedd:** system sy'n gwrando, yn gwerthfawrogi profiad ac yn gwneud gofal yn symlach i'w gyrchu.

Nid yw'r gwaith hwn yn golygu pwyntio bys, dim ond ceisio deall y rhwystrau sy'n wynebu pobl wrth ddarparu a chael mynediad at ofal, a chydabod bod rheolau a gyflwynwyd am resymau da weithiau'n cael canlyniadau anfwriadol neu'n datblygu'n hen ffasiwn. Mae'n ymwneud â gweithio gyda'n gilydd ar draws ffiniau i ddileu, mireinio, symleiddio a moderneiddio'r rheolau hynny fel eu bod yn parhau i wasanaethu eu pwrpas gwreiddiol heb ychwanegu baich diangen.

I gefnogi hyn, mae Pecyn Cymorth ymarferol wedi'i ddatblygu i helpu sefydliadau a'u timau i adolygu eu rheolau eu hunain, nodi rhwystrau diangen a gweithredu newidiadau cymesur, wedi'u llywio gan dystiolaeth. Bydd y Pecyn Cymorth hwn yn cael ei rannu â byrddau iechyd ynghyd â'u hadroddiad lleol 'Rheolau Gwirion' i gefnogi camau nesaf a gweithredu lleol.

Mae'r canfyddiadau hyn yn cynnig cyfle i weithio gyda'n gilydd i nodi ble a sut y gall newidiadau syml helpu i sicrhau system iechyd a gofal fwy doeth, effeithlon a chyfiawn ledled Cymru.

Comisiwn Bevan Commission

Yr Ysgol Reolaeth,
Prifysgol Abertawe, Campws y Bae,
Ffordd Fabian, Abertawe SA1 8EN

www.bevancommission.org
bevan-commission@swansea.ac.uk
+44 (0)1792 604 630



Eich llais mewn iechyd
a gofal cymdeithasol | Your voice in health
and social care

Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ

www.llaiswales.org
enquiries@llaiscymru.org
+44 (0)2920 235 558